

# Yr Ysgwrn

Prynhawn cynnes ddechrau Awst eleni oedd hi pan aeth Dafydd a minnau gyda'n hwyres, Ceri, sy'n ddeg oed i ymweld â'r Ysgwrn.

'Ga'i agor y giatia?' gofynnodd Ceri.

Ymlaen â ni wedyn, heibio'r bynglo a chyrraedd 'Yr Ysgwrn', a'r ceidwad, Mr Gerald Williams, nai Hedd Wyn, 'yr anwylaf o blant dynion', yn sefyll ar garreg y drws gyda'i wên gynnes a'r llaw yn ymestyn allan i gydio ynom. Cefais deimlad fy mod yn ei adnabod erioed. Tynnu coes yn syth, 'Mi ddaru chi basio'r lle 'ma wedyn do, a finna wedi deud yn union lle roeddwn i. Yn do?'

'Do,' oedd y cyfaddefiad.

Yna camu i mewn drwy'r drws a sylwi fod y llawr llechi gleision newydd ei olchi. Troi i'r dde i'r parlwr bach a chwe chadair farddol yn 'estyn yn ddistaw' eu breichiau i'n croesawu. Safasom yn stond mewn rhyfeddod fel petai amser wedi rhewi a'r gorffennol wedi ein llwyr lyncu, gan edmygu'r chwech ond yn arbennig 'y gadair ddu', gyda'i holl symbolau Celtaidd a Chymreig. Difyr oedd clywed yr holl fanylion amdani a deall ei bod yn fregus fel gwydr oherwydd i'r derw gael ei gerfio'n groes i'r graen. Hawdd oedd deall felly pam y safai Mr Williams mor agos iddi gan ei gwarchod yn ofalus.

'Mi gewch chi ista yn ryw un ond hon,' meddai, a braint i mi oedd cael eistedd yng nghadair Eisteddfod y Bala 1907, yr hon a

enillodd Hedd Wyn am ei awdl 'Y Dyffryn' pan yn ddeunaw oed. Cipiodd y teilyngdod er cystadlu yn erbyn ysgolheigion wedi eu trwytho yn y gynghanedd, ac yntau wedi derbyn ond cwta chwe blynedd o addysg gynradd. Yna rhyfeddu ar gynnwys y muriau a'u melyn luniau cyn dilyn y perchennog i'r gegin fyw a'i thrawstiau hynafol.

Dyma le oedd ynghlwm wrth dawelwch ac wedi llwyr ymwrthod symud ymlaen i'r byd technegol, byddarol. Yr hen simdde fawr yn cynnal ei tân coch, hen bot llaeth, y fegin, tecell yn crogi wrth gadwyn yn ffrwtian uwch y tân ac esboniadau ysgyrthurol ar sillf nepell o'r gwres.

'Ma' rhein yn sych yn fama,' meddai'n gellweirus, 'ac o'r ddwy gadair siglo 'ma roedd y ffarm yn cael ei rhedeg. Fy nhaid brynodd y cloc mawr yn ail-law pan yn priodi, ac mae'n dal i fynd.' Oedd yn wir, gyda'i dipian cyson mewn dwy ganrif o gerddediad, ac wrth ei ymyl, yr hen ddresel dderw yn cofleidio'i llestri gleision a dwy lamp olew, piano yn llwythog â llyfrau a'r hen gwpwrdd pres.

Nid oes yno gyfleusterau fel trydan a dŵr gan nad oes dim wedi newid yno, ac felly, dyma gymeriad hoffus sydd yn gallu byw dau fywyd mewn dau gyfnod.

'Dwi'n byw yn y bynglo a ma' gin i'r 'mod cons' i gyd yn fano - meicro wêf, y bocs a'r cwbl, ond yn cysgu yn 'Yr Ysgwrn' i gadw'r tân i fynd rhag i'r lle 'ma fynd yn

damp,' ychwanegodd.

Prynhawn bythgofiadwy o deimlad ysbrydol a rhyfeddol oedd hwn felly, ond yn sicr nad oedd yn gymharol â phrofiad y Parch E. Tegla Davies ac eraill oedd yn bresennol ym Mhafiliwn Pen Bedw yn gwrandao ar y dorf yn canu'r emyn

Bydd myrdd o ryfeddodau  
Ar doriad bore wawr,  
Pan ddelo plant y tonnau  
Yn iach o'r cystudd mawr;  
Oll yn eu gynnuau gynion  
Ac ar eu newydd wedd,  
Yn debyg idd eu Harglwydd  
Yn dod i'r lan o'r bedd.'

ac meddai Tegla 'ni chlybuwyd erioed y fath ganu'.

Wedi'r ymweliad daeth yr awen ar garlam gan ysbrydoli Dafydd i gyfansoddi'r ddau englyn canlynol:

Yr Ysgwrn

O'i weled oni wylwch - yn nefoedd  
Hynafol dawelwch,  
Ein draig ar gadeiriau'n drwch  
A'i drawstiau'n dal ei dristwch.

Hedd Wyn

Fe brifiodd yn nef y breffu - yno  
Y canodd i'w Gymru  
O'i fedd bu'i anrhydeddu  
O godi i'r ddwys Gadair Ddu.

EURWEN MORRIS



Yr Hen Simdde Fawr



Y Gadair Ddu.